Powys
*Neuadd y Sir / County Hall, Llandrindod, Powys, LD1 5LG*

Jeremy Patterson
Prif Weithredwr

Os yn galw gofynnwch am - If calling please ask for
Stephen Boyd

*Ffôn / Tel:* 01597 826374
*Ffacs / Fax:* 01597 826220
*Ffôn Symudol / Mobile:*
*Llythyru Electronig / E-mail:* sboyd@powys.gov.uk
*Dyddiad / Date:* **27 Chwefror 2015**

**Annwyl Aelod,**

**Gofynnir am eich presenoldeb yng nghyfarfod CYNGOR SIR POWYS, sydd i'w gynnal yn SIAMBR, NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD, DDYDD GWENER 6 Mawrth 2015 am 10:30AM**

**Yr eiddoch yn gywir,**

**Jeremy Patterson**

**Prif Weithredwr**

# A G E N D A

| 1. | YMDDIHEURIADAU | CC24-2015 |
|---|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | COFNODION | CC25-2015 |
|---|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo cofnodion cyfarfod(ydd) diwethaf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar y dyddiad(au) canlynol fel cofnod / cofnodion cywir.

**[ Amgaead CC25a-2015 ] (Cyngor Sir Powys 21 Ionawr 2015) (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

**[ Amgaead CC25b-2015 ] (Cyngor Sir Powys 11 Chwefror 2015) (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB | CC26-2015 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau sydd i'w hystyried ar yr agenda.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD | CC27-2015 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD | CC28-2015 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 6. | GAIR GAN Y PRIF WEITHREDWR | CC29-2015 |
|---|---|---|

Derbyn diweddariad gan y Prif Weithredwr.

| 7. | TROSGLWYDDIADAU YN GYLLIDEB SYDD ANGEN CYMERADWYAETH Y CYNGOR | CC30-2015 |
|---|---|---|

Ystyried trosglwyddiadau yn y gyllideb dros £300,000 sydd angen cymeradwyaeth y Cyngor.

**[ Amgaead CC30a-2015 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

| 8. | PENDERFYNIAD AR DRETH Y CYNGOR | CC31-2015 |
|---|---|---|

Gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2015-16.

**[ Amgaead CC31a-2015 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

| 9. | DATGANIAD POLISI CYFLOGAU | CC32-2015 |
|---|---|---|

Derbyn ac ystyried y Datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer 2015-16.

**[ Amgaead CC32a-2015 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

**[ Amgaead CC32b-2015 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

**[ Amgaead CC32c-2015 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

| 10. | DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R STRATEGAETH BUDDSODDIADAU BLYNYDDOL | CC33-2015 |
|---|---|---|

Derbyn ac ystyried y Datganiad Strategaeth ar Reoli'r Tryslorlys a'r Strategaeth Buddsoddiadau Blynyddol.

**[ Amgaead CC33a-2015 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

10.1 **Materion Cyfrinachol**

Ystyried gwneud y penderfyniad canlynol: Mae'r Swyddog Monitro wedi penderfynu bod Categori 3, Rheolau Mynediad at Wybodaeth, yn berthnasol i'r eitemau canlynol. Ei farn o ran prawf lles y cyhoedd, (ar ôl ystyried darpariaethau Rheol 11.8 Rheolau Mynediad at Wybodaeth) oedd y byddai cyhoeddi'r wybodaeth hyn yn datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â materion busnes neu ariannol unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n cadw'r wybodaeth honno). Yn ei farn ef, mae'r ffactorau hyn yn bwysicach na diddordeb y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. Gofynnir i aelodau ystyried y ffactorau hyn wrth benderfynu ar brawf lles y cyhoedd, a rhaid iddynt benderfynu ar hyn wrth ystyried eithrio'r cyhoedd o'r rhan hon o'r cyfarfod.

10.2 **Atodiad Cyfrinachol**

Ystyried a derbyn yr atodiad cyfrinachol i'r adroddiad.

**[ Amgaead CC33.2a-2015 ] (Rhaid i chi fewngofnodi a bod â'r hawliau priodol i weld y ddogfen hon.) (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

| 11. | PENODI AELODAU I GYNGOR IECHYD CYMUNEDOL POWYS | CC34-2015 |
|---|---|---|

Ystyried penodi chwe aelod i Gyngor Iechyd Cymunedol Powys.

**[ Amgaead CC34a-2015 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

| 12. | RHYBUDD O GYNNIG - CANOLFAN IECHYD LLANWRTYD | CC35-2015 |
|---|---|---|

Mae Cyngor Sir Powys yn condemnio cael gwared ar y warant incwm ofynnol i feddygfeydd ar gyfer Meddygfa Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd a fydd yn arwain at gau Canolfan Iechyd Llanwrtyd. Mae'r Cyngor Sir yn nodi bod y feddygfa hon yn darparu gofal iechyd sylfaenol ar gyfer dros 1,200 o gleifion ac yn darparu ystod eang o gyfleusterau iechyd gan gynnwys fferyllfa sydd ar agor o 8.30a.m. i 4.30p.m. bob dydd. Nid yw'r feddygfa gangen yn Llanfair-ym-Muallt yn gallu derbyn cynifer o gleifion a fydd yn trosglwyddo o Lanwrtyd, ac yn ogystal mae'r daith o leiaf 13 milltir i ffwrdd o Lanwrtyd, gyda braidd dim cludiant cyhoeddus ar gael a'r ffyrdd yn anodd eu tramwyo dros y gaeaf. Felly, mae'r Cyngor Sir, yn galw ar gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd addysgu Powys i gwrdd ag aelodau etholedig lleol y Cyngor Sir, cynrychiolwyr Cynghorau Tref Llanwrtyd a Llanfair-ym-Muallt a meddygon teulu i drafod fformiwla fel bod Canolfan Iechyd Llanwrtyd yn gallu parhau ar agor er mwyn diwallu anghenion y gymuned hynod wledig hon. Cynigydd y Cynghorydd Sir Tim Van-Rees, Eilydd y Cynghorydd Sir Avril York

| 13. | CWESTIYNAU YN UNOL A'R CYFANSODDIAD | CC36-2015 |
|---|---|---|

13.1 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Adfywio a Chynllunio gan y Cynghorydd Sir Gary Price**

Yn dilyn y cyhoeddiad na fydd Taith Prydain 2015 yn dod i Bowys yn 2015 a all yr Aelod Portffolio rhoi gwybod i'r Cyngor pa drafodaethau oedd wedi'u cynnal cyn y cyhoeddiad ac yn dilyn y cyhoeddiad.

**[ Amgaead CC36.1a-2015 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

13.2 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Adnoddau Dynol a TGCh gan y Cynghorydd Sir Aled Davies**

Mae aelodau o'r cyhoedd wedi codi pryderon am ysmygu ar eiddo Cyngor Sir Powys. Mae yna reolau clir am ysmygu ar eiddo'r Cyngor. Pa gamau y gellir eu cymryd i sicrhau bod cydymffurfiad â pholisi'r Cyngor.

**[ Amgaead CC36.2a-2015 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

13.3 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd gan y Cynghorydd Sir Dawn Bailey**

Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015 newydd yn nodi manylion am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu cludiant yn yr ardaloedd y mae'n gyfrifol amdano er mwyn cyflawni'r canlyniadau a nodir yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru o 2015 ac yn y blynyddoedd wedi hynny. Bydd y cyfnod ymgynghori ar y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015 yn dod i ben ar 11 Mawrth 2015. Fel yr Aelod Lleol ar gyfer etholaeth Trewern sydd ar y ffin rhwng Swydd Amwythig a Sir Drefaldwyn, mae'n rhwystredig iawn i weld y cynigion ar gyfer y ffordd osgoi yn y Drenewydd yn bwrw ymlaen tra bod cynllun a gafodd ei ddynodi rhyw ddeugain mlynedd yn ol ac yn fwy diweddar yn 2004 ar gyfer ymyraethau tebyg ar gefnffordd yr A458 Buttington Cross i Wollaston Cross yn parhau wedi'u nodi yn y Cynllun fel rhywbeth i'w ystyried ymhellach. Cyhoeddwyd yn ddiweddar bod y Gweinidog dros Drafndiaeth, Edwina Hart AC wedi sefydlu Fforwm Ffyrdd Trawsffiniol er mwyn datgloi'r cyfyngiadau ar gynlluniau ffyrdd sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Nodwyd yn benodol y byddai'r Fforwm yn ail-ddechrau trafodaethau am gynllun osgoi yr A483 Llanymynech i Pant sydd ar y prif gefnffordd rhwng Wrecsam ac Abertawe. A yw'r Aelod Portffolio yn gallu cadarnhau pa gynrychiolwyr sydd gan y Cyngor hwn ar y Fforwm ac os yw cynllun cefnffordd yr A458 Buttington Cross i Wollaston Cross i fod yn rhan o drafodaethau'r dyfodol? Hefyd, pa sicrwydd gall yr Aelod Portffolio ei roi i'r Cyngor hwn bod y Cyngor yn parhau'n ymroddedig i wella cysylltiadau cludiant ar y coridor rhwng y dwyrain a'r gorllewin rhwng Cymru a Lloegr?

**[ Amgaead CC36.3a-2015 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

13.4 **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Gwilym Williams**

Mae nifer yn fy etholaeth yn ogystal â fi fy hunan yn bryderus am nifer yr ymgynghorwyr sy'n cael eu cyflogi gan Gyngor Powys. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd erthygl yn y papur a oedd yn nodi bod tri ymgynghorydd wedi derbyn dros £1 miliwn mewn cyflogau dros ychydig o flynyddoedd. Felly fel yr arweinydd, chi'n sy'n gyfrifol am ar yr holl ddeiliaid portffolio, ac mae ymgynghorwyr yn cael eu cyflog ar draws Powys gyfan mewn gwahanol adrannau. Fy nghwestiwn i, i chi fel arweinydd yw a allwch chi ddweud faint o ymgynghorwyr sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Powys, a faint o arian ry'n ni'n ei dalu i'r ymgynghorwyr hyn bob mis fel awdurdod?

**[ Amgaead CC36.4a-2015 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

13.5 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd gan y Cynghorydd Sir Russell George**

A all yr aelod Cabinet darparu diweddariad ar y gwaith o glirio sbwriel o ymylon ffyrdd a gwrychoedd ar draws Powys.

**[ Amgaead CC36.5a-2015 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

13.6 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd gan yr Aelod Portffolio Russell George**

A all yr aelod cabinet rhoi diweddariad ar gyflwr y ffyrdd ym Mhowys sydd yn gyfrifoldeb Cyngor Sir Powys?

**[ Amgaead CC36.6a-2015 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

13.7 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion gan y Cynghorydd Sir Russell George**

A all yr Aelod Cabinet rhoi diweddariad ar ba wersi a ddysgwyd yn dilyn yr adolygiad Annibynnol ar ofal yn y cartref? A yw'r Awdurdod wedi cysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth neu aelodau'r teulu i ymddiheurio am ffaeleddau'r Awdurdod o ran gofal yn y cartref?

**[ Amgaead CC36.7a-2015 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**